Papur 8

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

John Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

15 Rhagfyr 2022

Annwyl Jayne, Jenny a John

Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i anghydraddoldebau iechyd meddwl

Er gwybodaeth, atodaf gopi dan embargo o adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cysylltu'r dotiau: Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*. Mae'r adroddiad dan embargo tan 00.01 ddydd Llun 19 Rhagfyr, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai eich Pwyllgorau drin yr adroddiad fel dogfen gyfrinachol tan hynny.


Mae'r materion yr ydym wedi'u harchwilio drwy gydol yr ymchwiliad yn berthnasol i holl bortffolios ein Pwyllgorau. Gobeithiwn fod y wybodaeth a'r papurau briffio yr ydym wedi'u rhannu yn ystod ein hymchwiliad wedi bod yn ddefnyddiol o ran llywio eich gwaith, a'u bod wedi ategu'r manteision sy'n deillio o'r ffaith bod Aelodau'n eistedd ar bwyllgorau cysylltiedig.[1] Rydym hefyd yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am ein gwahodd i gymryd rhan yn eich trafodaethau gyda Mind Cymru a phobl ifanc ynghylch y trefniadau pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant ac oedolion.

[1] Ers mis Gorffennaf 2022, mae Sarah Murphy wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. Roedd Ken Skates, sy'n aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, yn bresennol fel dirprwy ar gyfer rhan fwyaf o'r sesiynau tystiolaeth lafar a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwiliad. Cymerodd ran hefyd yn y trafodaethau a gynhaliwyd ar faterion allweddol yr ymchwiliad ac ar baratoi'r adroddiad.

Rydym am sicrhau bod pobl wrth galon gofal iechyd a gofal cymdeithasol, ac wrth galon ein gwaith. Mae ein dull gweithredu wrth gynnal yr ymchwiliad hwn wedi adlewyrchu hynny, gan sicrhau bod gan bobl sydd â phrofiad byw ac arbenigedd gyfle i gyfrannu mewn ffyrdd amrywiol. Rydym yn hynod o ddiolchgar i'n grŵp cynghori ar-lein, sy'n cynnwys pobl â phrofiadau byw gwahanol, am rannu eu sylwadau a'u harbenigedd â ni drwy gydol yr hydref, wrth i ni gwblhau'r broses o gymryd tystiolaeth a pharatoi ein hadroddiad. Bydd crynodeb o sylwadau'r grŵp cynghori yn cael ei gyhoeddi ddydd Llun, ynghyd â'n hadroddiad.

Rydym yn bwriadu ceisio cytundeb y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl ar ein hadroddiad yn y gwanwyn. Er mwyn sicrhau bod yr ymchwiliad yn parhau i elwa ar yr her adeiladol a gynigir gan bobl sydd â phrofiadau byw, byddwn yn gofyn i aelodau'r grŵp cynghori rannu eu sylwadau â ni ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru cyn i'r ddadl gael ei chynnal.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.